



Dechrau Wrth Fy Nhraed



Yr ysgol, rhieni, a'r gymuned eangach yn cydweithio

Trosolwg o'r ysgol

- Ysgol gymunedol yn ne Sir Benfro.
- Tua 650 o ddisgyblion.
- Ysgol 3-11 llawn amser (yr unig ysgol gyda meithrin llawn amser yn y Sir).
- 29.4% o ddisgyblion yn cael prydau ysgol am ddim.
- Cyllideb ysgol unigol i bob disgybl = £4,391 yr un.
- 93.8% presenoldeb.
- Cymhareb disgbl-athro o 18.7.
- 23 dosbarth yn yr ysgol.
- Ysgol cyfrwng Saesneg.
- Mewn ardal amddifadedd uchel (10% uchaf yn y wlad).
- Mae carfan fawr o sipsiwn yn yr ysgol.
- Does dim llawer o Gymraeg yn yr ardal.



Beth mae swyddog cymorth i deuluoedd yn ei wneud?

Ar gael i fynd â disgyblion neu aelodau o'r teulu i apwyntiadau meddygol.

Helpu i olchi gwisgoedd os oes angen.

Gyrru bws mini i gael plant i ddod i ysgol os nad ydy'r rhieni gallu dod â nhw.



Beth yw cefnogaeth ELSA?

Yn Saesneg, mae ELSA yn sefyll am 'Emotional Literacy Support Assistants'. Maent yn gynorthwywyr addysgu sydd wedi'u hyfforddi i allu cefnogi plant trwy gyfnodau anodd. Yn ysgol 'A', mae yna ELSA i deuluoedd i gefnogi rhieni hefyd. Fel arfer, bydd y plentyn neu'r teulu yn derbyn 6-8 wythnos o sesiynau, ac wedyn bydd adolygiad gan yr ELSA.

Sut mae'r ysgol yn cydweithio gyda rhieni?

- Cyfathrebu gyda rhieni yn aml ar wefan yr ysgol neu ar Facebook.
- Holiaduron i gasglu llais rhieni a gofalwyr ynglŷn â phrofiadau'r plant.
- Boreau coffi wythnosol, gydag ymwelwyr fel meddygon, heddlu a therapydd iaith a llyferydd.
- Dysgu teuluol, e.e. gwersi mathemateg 3D i wneud addurniadau Nadolig.
- Clybiau i rieni fel 'Plant Dewi' i annog tadau i wneud gweithgareddau gyda'i phlant.
- Adnoddau a hanfodion ar gael i deuluoedd sy'n ei chael hi'n anodd helpu eu hunain, e.e. gwisg ysgol a chewynnau.
- Teuluoedd wedi'u targedu-lle does dim llawer o gefnogaeth gartref, neu dim gwaith cartref yn dod yn ôl i'r ysgol.
- Rhieni yn dod mewn i wneud gwersi i ddatblygu eu sgiliau.
- Swyddog cymorth i deuluoedd.
- Gweithio gyda rhieni Saesneg fel ail iaith.
- Arddangos gwaith disgyblion i hysbysu rhieni.
- ELSA i'r teulu.
- Llyfrgell benthica-adnoddau fel 'numicon' a llyfrau ar gael.



Siarter iaith

Mae'r siarter iaith yn gynllun i ddatblygu'r defnydd cymdeithasol o'r Gymraeg yn ysgolion cynradd. Mae yna wobwr efydd, arian ac aur i weithio tuag at. Mae 'Criw Cymraeg' yr ysgol wedi eu gwneud lan o ddisgyblion, a'i rôl nhw yw hyrwyddo'r iaith yn y dosbarth ac ar yr iard hefyd.




Mae'r ysgol yn datblygu defnydd y disgyblion o Gymraeg achlysurol trwy ei ymgorffori mewn tasgau bob dydd, er enghraifft, y tywydd neu rifau.

Rhai pynciau a drafodwyd mewn sesiynau ELSA.

- Profedigaeth
- Ymddygiad
- Patrymau cysgu
- Problemau gartref

Mae'r staff yn gwahodd rhieni i'r ysgol i le cadarnhaol a chefnogol i helpu i newid profiadau a phersbectif y rheini o ysgolion. Hefyd, mae cyfle i'r rhieni i ddatblygu sgiliau a dysgu ffordd newydd o wneud pethau. Enghraifft o hwn yw sgiliau mathemateg fel rhannu gyda gwahanol ddulliau, e.e. rhaniad hir, rhaniad blwch.



Prosiect 'DockLeaf'

Mae prosiect 'dockleaf' yn helpu aelodau o'r gymuned i fynd yn ôl i'r gweithle. Maent yn gwirfoddoli am o leiaf 16 awr yr wythnos, ac yn cwblhau eu hyfforddiant CGC gyda chymorth coleg y sir.

Teuluoedd ffoaduriaid a Saesneg fel ailiaith

Mae'r ysgol yn eu helpu i ddatblygu ymdeimlad o le ac i ddod yn gyfarwydd gyda'r gymuned a gwneud perthynas cryf. Maent yn rhedeg clybiau i'r teuluoedd, er enghraifft, clwb coginio. Mae'r clybiau yma yn rhoi cyfle iddynt i ddangos bwyd a phethau eraill o'u diwylliant. Maent yn cyfathrebu ag iaith arwyddion sylfaenol, ac yn helpu nhw i ddatblygu eu sgiliau Saesneg.

Sut mae'r ysgol yn gweithio â theuluoedd cyn i'r plentyn ddechrau'r ysgol?

- Rhaglen 'Dechrau'n Deg'.
- Ymweliad cartref i weld y plentyn yn fwy 'naturiol' ac i weld amgylchedd eu cartref.
- Cwrdd â rhieni i drafod eu harferion a'u hanghenion.
- Gwahodd y teulu mewn i'r ysgol i edrych o gwmpas a'u helpu i lenwi ffurflenni os oes angen.
- Gweld os mae anghenion dysgu ychwanegol gyda'r plentyn a pharatoi i ddarparu ar ei chyfer.
- Grŵp rhieni a phlant bach-gyfle i ddod i adnabod y rhieni a'r plentyn yn anffurfiol cyn dechrau'r broses addysg.
- Defnyddio cyfryngau cymdeithasol i 'werthu'r ysgol' a rhoi gwybodaeth allan.



Sut mae'r ysgol yn cydweithio gyda'r gymuned?

- Prosiect 'DockLeaf'.
- Arddangosfeydd o'r gymuned a'r ardal amgylchynol.
- Gweithio gyda phlant a theuluoedd ffoaduriaid.
- Gweithio gyda phlant a theuluoedd Saesneg fel ail iaith.
- Ymweliadau i lefydd lleol, er enghraifft, Scolton Manor, ysgol goedwig, ffermydd, traethau.
- Gwahodd aelodau o'r gymuned mewn i siarad.
- Gweithgareddau i'r teulu a'r gymuned, er enghraifft, 'carolau a chrefft' adeg Nadolig.
- Ystafell gymunedol.

Beth yw'r ystafell gymunedol?

Ystafell yn yr ysgol sydd yn cael eu defnyddio gan aelodau o'r gymuned. Yn aml, mae staff yr ysgol yn rhedeg dosbarthau neu hyfforddiant i'r rhieni sydd angen mwy o gefnogaeth. Mae amrywiaeth o bynciau dan sylw, gan gynnwys, hyfforddiant toiled a darllen gyda'u plant.